NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Rheoli cyflymder y nerf ffrenig ar gyfer syndrom tananadlu canolog cynhenid

21 Awst 2024

Er bod tystiolaeth gyfyngedig am y driniaeth hon, gellir ei defnyddio i drin syndrom tananadlu canolog cynhenid (CCHS) oherwydd mai cyflwr genetig prin ydyw, gyda rhyw 1,000 o achosion wedi'u nodi ym mhedwar ban byd. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos buddiannau defnyddio'r driniaeth hon, ac nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr.

Mae CCHS yn effeithio ar allu'r ymennydd i reoli anadlu. Gall pobl â CCHS gael trafferth anadlu (tananadlu) yn ogystal â lefelau isel o ocsigen a lefelau uchel o garbon deuocsid yn eu gwaed. Mae'r symptomau'n digwydd wrth gysgu gan mwyaf, ond gall pobl â CCHS difrifol hefyd gael symptomau tra byddant yn effro. Mae angen peiriant anadlu mecanyddol ar y rhan fwyaf o bobl gyda CCHS i'w helpu i anadlu, drwy'r amser neu dim ond pan fyddant yn cysgu.

Yn y driniaeth hon, caiff electrod ei fewnblannu o gwmpas y nerf ffrenig yn rhan isaf y gwddf neu'r frest. Bydd y nerf ffrenig yn rheoli'r diaffram, sef y prif gyhyr a ddefnyddir i anadlu. Caiff yr electrod ei gysylltu â derbynnydd a osodir yn wal y frest fel rheol. Yna, bydd trosglwyddydd allanol yn anfon signalau radio-amledd i'r derbynnydd, gan achosi'r electrod i ysgogi (rheoli cyflymder) y nerf ffrenig. Mae'r broses rheoli cyflymder yn gwneud i'r diaffram gyfangu. Y nod yw helpu pobl i anadlu'n normal a chael rhywfaint o amser heb beiriant anadlu, gan wella ansawdd eu bywyd o bosibl.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y

driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gall CCHS UK, 07771 668 159, roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8987-4